# Ordinhad 15
# Y Senedd: Datganiad o'r Prif Gyfrifoldebau

**Corff Cymeradwyo:** Y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo**: 06 Gorffennaf 2018

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Cyswllt y polisi:** Dr Gwawr Taylor, saastaff@aber.ac.uk / 01970 622048

**Statws y polisi:** Diwygiwyd

**Fersiwn:** 2.2

**Dyddiad adolygu diwethaf:** Gorffennaf 2023

**Dyddiad adolygu nesaf:** Gorffennaf 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. / This document is also available in English.

## ORDINHAD 15
## Y SENEDD: DATGANIAD O'R PRIF GYFRIFOLDEBAU

Y Senedd fydd awdurdod academaidd y Brifysgol. Bydd yn atebol i'r Cyngor, ac yn darparu sicrwydd i'r Cyngor, am: ansawdd academaidd y Brifysgol wrth ddysgu ac ymchwilio, rheoli a chymeradwyo'r portffolio academaidd, ac am reoli gwaith rheoleiddio buddiannau academaidd y sefydliad.

Oni bai bod darpariaeth benodol fel arall, bydd penderfyniadau'r Senedd yn cael eu cymryd drwy fwyafrif o'r aelodau sy'n bresennol ac sy'n pleidleisio.

<u>Rhestr o'r Prif Gyfrifoldebau</u>

Bydd gan y Senedd y pwerau canlynol, yn amodol ar y Siarter, Ystatudau ac Ordinhadau, ac yn ychwanegol at yr holl bwerau eraill a ddirprwyir iddi gan y Cyngor:

1. Naill ai ar ran y Brifysgol neu ar y cyd â sefydliadau eraill, cymeradwyo gwobrau, graddau, ac anrhydeddau academaidd eraill i'r unigolion hynny sydd wedi astudio, ac wedi cwblhau'n llwyddiannus, gynllun astudio neu ymchwil a gymeradwywyd gan y Senedd, ac i unigolion sy'n dal anrhydeddau academaidd o safon gyfartal neu debyg a roddwyd iddynt gan unrhyw goleg neu sefydliad addysg uwch arall.

2. Os bydd rheswm da, difeddiannu unrhyw unigolion o unrhyw anrhydeddau neu deitlau academaidd a roddir iddynt gan y Brifysgol, a dirymu unrhyw radd neu wobr arall a roddwyd iddynt gan y Brifysgol, a thynnu oddi wrthynt bob braint gysylltiedig â hynny.

3. Cyflwyno am wobrau, graddau ac anrhydeddau academaidd eraill mewn cyrff eraill yr unigolion hynny sydd, o dan arolygaeth y Brifysgol, wedi astudio ac wedi cwblhau yn llwyddiannus gynllun astudio neu ymchwil a gymeradwywyd gan y cyrff hynny.

4. Ystyried a chymeradwyo, lle y bo hynny'n briodol, holl gynigion ar gyfer cysylltiadau academaidd y Brifysgol â sefydliadau neu gyrff eraill – gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu unrhyw gorff olynol – a, lle y bo'n briodol, rhoi gweithdrefnau addas ar waith i fonitro cysylltiadau o'r fath. Lle y bydd y cysylltiadau hynny yn golygu bod gwobrau, graddau ac anrhydeddau academaidd eraill Prifysgol Aberystwyth yn cael eu rhoi gan sefydliad arall, bydd y Cyngor yn cael adroddiad, er gwybodaeth iddo, ynghylch y gymeradwyaeth a roddwyd gan y Senedd i gynigion o'r fath. Bydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn rhoi cyngor i'r Senedd ynghylch materion o'r fath lle y bydd ystyriaethau ariannol neu gyfreithiol arwyddocaol yn codi ohonynt.

5. Sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i fonitro a chloriannu perfformiad, effeithiolrwydd ac ansawdd academaidd y Sefydliad yn ôl y cynlluniau a'r dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt gan y Cyngor.

6. Lle y bo'n angenrheidiol, archwilio i sefyllfa ymchwil, addysgu, staffio a gwaith cyffredinol unrhyw Athrofa, Adran ac unedau academaidd arall yn y Brifysgol ac adolygu, diwygio, cyfeirio yn ôl, neu ailystyried unrhyw benderfyniad academaidd a wnaed gan unrhyw Athrofa, Adran neu uned academaidd yn y Brifysgol.

7. Gwneud argymelliadau i'r Cyngor gogyfer â chreu, diddymu a newid enw unedau academaidd.

8. Bod yn gyfrifol am reoli'r portffolio a chyfarwyddo, rheoleiddio a rheoli holl waith dysgu, holl gynlluniau astudio ac arholiadau'r Brifysgol, a phennu'r amodau lle gellir derbyn unigolion i'r Brifysgol ac i unrhyw gynllun astudio neu ymchwil penodol.

9. Pennu'r amodau sydd yn gysylltiedig â pherfformiad academaidd ac astudio mewn modd priodol a fydd yn caniatáu i fyfyrwyr barhau â’u hastudiaethau yn y Brifysgol a’r camau a gymerir wrth ymdrin ag unrhyw fyfyriwr sy’n methu â bodloni’r arholwyr o’i gynnydd boddhaol mewn unrhyw arholiad yn y Brifysgol.

10. Rheoleiddio disgyblaeth myfyrwyr ac, yn amodol ar ddarpariaethau'r Ystatudau ac Ordinhadau, diarddel unrhyw fyfyriwr o unrhyw ddosbarth neu ddosbarthiadau a/neu eithrio unrhyw fyfyriwr o’r Brifysgol gyfan neu o ran ohoni neu ei chyffiniau.

11. Dyfarnu efrydiaethau, ysgoloriaethau, bwrsariaethau, gwobrau a grantiau eraill i annog gwaith astudio ac ymchwil.

*12.* Gwneud argymelliadau i’r Cyngor ynghylch dyfarnu Cymrodoriaethau ac anrhydeddau *honoris causa* eraill, ac ynghylch tynnu'r cyfryw yn ôl.

13. Pennu pa aelodau o staff fydd â statws academaidd.

14. Rhagnodi pa wisg academaidd a wisgir gan Swyddogion ac aelodau’r Brifysgol a’r achlysuron y cânt ei gwisgo.

Caiff y Senedd, fel y gwêl yn dda, ddirprwyo gwaith cyflawni unrhyw o'r swyddogaethau uchod i un neu ragor o is-bwyllgorau neu swyddogion, ar yr amod bod yr is-bwyllgorau perthnasol yn cyflwyno adroddiadau i'r Senedd yn disgrifio sut y mae'r swyddogaeth a ddirprwywyd wedi'i chyflawni.